ATODIAD 5

# Mae'r tablau canlynol yn gyflwyniad o ganlyniadau a sylwadau ar ein Cyfres Ddata Gorfforaethol sy'n gysylltiedig â phob Amcan a Blaenoriaeth Llesiant.

| Amcan Llesiant 1 - Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ein Cyfres Data Corfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2024/25** | | | | | | | | | |
| | | **Pa mor dda rydym ni wedi** | **Pa mor dda rydym ni yn ei wneud?** | | | | | | |
| | | | **Gweler yr esboniad o berfformiad** | | | | **Gwybodaeth Gymharol Cymru** | | |
| **Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad** | | **2023/24 neu ganlyniad blaenorol** | **2024/25 neu'r diweddaraf** | | | | | | |
| | | **Ein Canlyniad** | **Targed** | **Gwir Ganlyniad** | **Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹** | **A wnaethon ni wella ▲ neu ▼** | **Cyfradd Cymru Gyfan** | **Chwartel Gorau Cymru** | **Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****** |
| **Amcan Llesiant 1 Cyffredinol** | | | | | | | | | |
| 1 | **% y plant sy'n byw mewn tlodi**<br><br>*Mae'r data hwn yn defnyddio dangosyddion lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Cyllid a Thollau EF ynghyd â gwybodaeth am gostau tai ar lefel leol i amcangyfrif cyfraddau tlodi ar ôl costau tai. Mae'n dynodi faint o blant y credir eu bod yn byw mewn aelwydydd gydag incwm sy'n is na 60% o'r canolrif* | **27.8% (2021/22)** | Dim targed wedi'i bennu | **29.5% (2022/23)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **31.0%** | **27.9%** | ******* |
| | | Cynyddodd cyfraddau tlodi plant rhwng 2021/22 a 2022/23 i 29.5%. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welir yn genedlaethol ac yn cyfateb i bron i 11,400 o blant. Dyma'r 12fed lefel uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.<br>Mae tlodi yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun. Mae'n arbennig o niweidiol i blant, gan effeithio ar eu hiechyd a'u datblygiad hirdymor, eu cyrhaeddiad addysgol, a'r cyfleoedd a gânt. Mae plentyn sy'n tyfu i fyny mewn tlodi mewn mwy o berygl o beidio â chael y dechrau gorau mewn bywyd o ystyried y gallai ei fynediad at fwyd, lloches, gofal iechyd ac addysg gael ei beryglu.<br>Mae'r Cyngor wedi gweld galw cynyddol am lawer o'i wasanaethau a'i systemau cymorth yn dilyn y pandemig. Mae effeithiau'r argyfwng costau byw nawr wedi gwaethygu hyn, gan beri bod rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd. Fel bob amser, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Targed** | **Gwir Ganlyniad** | **Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹** | **A wnaethon ni wella ▲ neu ▼** | **Cyfradd Cymru Gyfan** | **Chwartel Gorau Cymru** | **Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** ** |
| **2** | **% y plant rhwng 4 a 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew** | **30.5% (2022/23)** | Dim targed wedi'i bennu | **30.2% (2023/24)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **25.5%** | **24.0%** | ***** |
| | | Yn 2023/24, roedd 30.2% (522) o blant 4 i 5 oed dros bwysau neu'n ordew yn Sir Gaerfyrddin. Dyma'r ail lefel uchaf yng Nghymru, gyda gwelliant bach ar ffigurau 2022/23 - 30.5% (524).Bydd gordewdra yn gynnar mewn bywyd yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd yn y tymor hir ac yn ei dro bydd yn effeithio ar gyfleoedd bywyd y person hwnnw.<br>Er na all y Cyngor ar ei ben ei hun effeithio ar lefel y newid sydd ei angen i leihau gordewdra plant, mae gan nifer o wasanaethau'r Cyngor rôl bwysig i'w chwarae. Mae hyn yn cynnwys darparu prydau ysgol maethlon a mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon. | | | | | | | |
| **3** | **Nifer y Plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed** | **34.08 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2022/23)** | Dim targed wedi'i bennu | **27.26 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2023/24)** | Ddim yn berthnasol | | **46.47** fesul 10,000 o'r boblogaeth | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | Gostyngodd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fesul 10,000 o'r boblogaeth o 125 yn 2022/23 i 100 yn 2023/24. Mae'n parhau i fod yn sylweddol is na chyfradd Cymru gyfan o 46.47 fesul 10,000 o'r boblogaeth. Mae'r ffigurau ar gyfer 2024/25 yn dangos cynnydd bychan, gyda 118 o blant wedi'u cofnodi fel rhai sydd ar y gofrestr. Mae hyn yn dangos bod y ffigurau blwyddyn ar ôl blwyddyn yn amrywio.<br>Gwneir penderfyniadau i gofrestru/dad-gofrestru enwau plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant mewn cynadleddau achos amlddisgyblaethol. Caiff achosion hefyd eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td colspan="10">Amcan Llesiant 1a - Blaenoriaeth Thematig - Bywydau Iach – atal / ymyrraeth gynnar</td></tr>
<tr><td rowspan="2">4</td><td rowspan="2">% y genedigaethau sengl byw gyda phwysau geni o dan 2,500g</td><td>5.0% (2023)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>5.2% (2024)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td>6.3%</td><td>5.7%</td><td>****</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae'r data diweddaraf (2024) yn dynodi bod lefel y pwysau geni isel yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ychydig. Dyma'r drydedd lefel isaf yng Nghymru ac mae'n parhau i fod yn is na chyfradd Cymru gyfan, sef 6.3%. Mae babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau iechyd. Felly, mae'n gadarnhaol bod canran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi bod yn gostwng yn gyffredinol yn Sir Gaerfyrddin.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">5</td><td rowspan="2">Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed</td><td>50.70 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2022/23)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>70.60 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2023/24)</td><td colspan="2">Ddim yn berthnasol</td><td>116.10 fesul 10,000 o'r boblogaeth</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Er gwaethaf cynnydd o 36% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2022/23 (190) a 2023/24 (259), rydym yn parhau i fod â'r nifer isaf o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru gyda 70.60. Mae hyn gryn dipyn yn is na chyfradd Cymru o 116.10. Ar 20 Chwefror 2025, roedd hyn wedi cynyddu ymhellach i 269. Ni fydd y data cymharol ar gyfer hyn fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gael tan ddiwedd 2025, ond mae ein niferoedd wedi bod yn isel o gymharu ag awdurdodau lleol eraill ers blynyddoedd lawer.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">6</td><td rowspan="2">Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth</td><td>208 o blant Mawrth 2024</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>205 o blant Mawrth 2025</td><td colspan="2">Ddim yn berthnasol</td><td>4,875 (Cyfanswm Cymru Mawrth 2024)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ceir gostyngiad bach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ddiwedd mis Mawrth 2025. Mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r adran yn cydweithio â Maethu Cymru ar draws y rhanbarth a chafodd ymgyrch recriwtio gofalwyr maeth genedlaethol gryn sylw gan y cyfryngau.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 7 | **Nifer y cyfranogiadau mewn chwaraeon a chyfleoedd corfforol a hwyluswyd gan Cymunedau Actif (3.4.2.8)** | **211,004** | 237,579 | **585,178** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cymerodd bron i 600,000 o bobl ran mewn chwaraeon a chyfleoedd corfforol a hwyluswyd gan Cymunedau Actif yn ystod 2024/25. Dyma ganlyniad ardderchog sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed. Mae hyn yn gynnydd mawr o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf sef 211,004. Fodd bynnag, y prif reswm am y cynnydd yw bod y maes gwasanaeth yn awr wedi gallu casglu data o leoliadau yr oeddent cyn hynny yn eu cefnogi i ddatblygu ond sy'n dal i weithredu'n gynaliadwy. | | | | | | | |
| 8 | **% y plant sy'n gallu nofio 25m yn 11 oed (3.4.2.1)** | **37.2%** (Blwyddyn Academaidd 22/23) | 40.0% | **48.4%** (Blwyddyn Academaidd 23/24) | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Dysgodd dros 400 o blant 11 oed sut i nofio 25m yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Mae hyn ychydig yn llai na 50% o'r rhai a addysgwyd. O'r rhain, roedd 47.1% yn fechgyn a 50.4% yn ferched. | | | | | | | |
| 9 | **Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn, a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol (CH/006a/012)** | **63.0%** | 65.0% | **37.0%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Gan fod cronfa ddata cleientiaid newydd yn cael ei gweithredu o fewn y Gwasanaethau Plant, mae'r data ar gyfer 2024/25 yn cynnwys data rhwng 1 Ebrill 2024 a 20 Chwefror 2025. Mae ymchwiliadau wedi digwydd mewn perthynas â chwblhau asesiadau o fewn amserlenni ac mae'r adran yn ymdrechu i wella'r sefyllfa drwy wneud y gwaith canlynol: Darparu'r data i Reolwyr Tîm yn rheolaidd; Uwch-reolwr a Rheolwyr Tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i edrych ar berfformiad; Mae Rheolwyr Tîm yn defnyddio'r data gyda Gweithwyr Cymdeithasol; Mae adnoddau wedi cael eu symud o gwmpas i gynorthwyo timau asesu i gau asesiadau sydd wedi bod ar agor am gyfnod estynedig. Wrth i'r asesiadau hyn gael eu cau, bydd yna ostyngiad yn hytrach na gwelliant. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol: Ein Canlyniad | 2024/25 neu'r diweddaraf: Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **% y plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy (CH/043)** | **8.5% (22/259)** | 8.1% | **9.7% (26/269)** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae 9.7% (26 o'r 269 o blant sy'n derbyn gofal) wedi symud dair gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn o gymharu ag 8.5% (22 o'r 259) yn 2023/24. Mae prinder gofalwyr maeth yn parhau i fod yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cyfyngu ar ddewis a gall effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. Rydym wedi cwblhau adolygiad gofal maeth ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu. Rydym yn parhau i gydweithio ar draws y rhanbarth gyda Maethu Cymru gyda golwg ar leoliadau maeth. Mae gwaith datblygu yn parhau i gynyddu'r ystod a'r math o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy'r Strategaeth Breswyl ar gyfer Plant a'r Cynllun Trawsnewid Gwasanaethau Maethu. Mae hyn yn cynnwys tri chartref plant mewnol newydd - Hafan - eiddo pum ystafell wely gan gynnwys un ystafell argyfwng ac un ystafell wely staff. Mae yna hefyd gynllun strategol i ddatblygu'r ddau gartref plant newydd arall a chaiff ei gefnogi drwy gynlluniau'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 1b - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Blynyddoedd cynnar** | | | | | | | | | |
| 11 | **Nifer y Lleoedd Gofal Plant Cofrestredig sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin** | **4,214 (Mai 2024)** | Dim targed wedi'i bennu | **4,502 (Mai 2025)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Ym mis Mai 2025 roedd yna 218 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn cynnig 4,502 o leoedd gofal plant yn cael eu darparu gan warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, Dechrau'n Deg, Clybiau ar ôl Ysgol, a Chlybiau Gwyliau. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â Mai 2024 pryd roedd yna 213 o ddarparwyr cofrestredig a 4,214 o leoedd gofal plant. Mae adroddiad cryno ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant Statudol yn parhau i gael ei rannu gyda darpar-ddarparwyr gofal plant, ac mae hefyd ar gael ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 1c - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Addysg** | | | | | | | | | |
| 12 | **% y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) (PAM/009)** | **2.3%** | 1.8% | **2.4%** | ☹ | ▼ | **2.4%** | **1.9%** | ** |
| | | Mae'r canlyniad o 2.4% (51 allan o 2,083) yn ostyngiad bach o gymharu â 2.3% y flwyddyn flaenorol (46 allan o 1,987). Fodd bynnag, roedd y canlyniad yn y 13eg safle yng Nghymru, a oedd yn welliant o gymharu â'r 18fed safle y flwyddyn flaenorol ac yn gydradd â chyfradd Cymru gyfan. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi gwneud gwaith ieuenctid i bontio ar ôl 16 oed yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid Llywodraeth Cymru drwy gydol y llynedd. Gwnaed gwaith i sicrhau bod gwybodaeth am y fframwaith yn cael ei deall o fewn yr Adran Addysg, Plant a Theuluoedd. Mae systemau atgyfeirio ar waith ar gyfer y rheiny sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. | | | | | | | |
| 13 | **% y rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) (5.1.0.2)** | **5.0%** | 3.0% | **3.2%** | ☹ | ▲ | **3.2%** | **2.3%** | ** |
| | | Mae'r canlyniad o 3.2% (19 allan o 598) yn welliant o gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol o 5.0% (31 allan o 616). Roedd y canlyniad yn y 12fed safle yng Nghymru, a oedd yn welliant o gymharu â'r 18fed safle y flwyddyn flaenorol ac yn gydradd â chyfradd Cymru gyfan. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi gwneud gwaith ieuenctid i bontio ar ôl 16 oed yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid Llywodraeth Cymru drwy gydol y llynedd. Gwnaed gwaith i sicrhau bod gwybodaeth am y fframwaith yn cael ei deall o fewn yr Adran Addysg, Plant a Theuluoedd. | | | | | | | |
| 14 | **% presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Cynradd (PAM/007)** | **91.1%** | 91.5% | **91.6%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r canlyniad o 91.6% ychydig yn uwch na'r targed o 91.5% ac yn welliant o gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol o 91.1%. Fodd bynnag, roedd yn is na chyfradd Cymru gyfan o 92.1%. Mae'r canlyniad yn parhau i fod yn is na'r canlyniad diwethaf cyn y pandemig (Blwyddyn Academaidd 2018/19) o 93.9%. Mae absenoldeb wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig a thu hwnt e.e. dirywiad mewn ymddygiad sy'n arwain at gynnydd mewn gwaharddiad am gyfnod penodol; cynnydd mewn salwch ac apwyntiadau meddygol; cynnydd mewn gwyliau teuluol. Roedd arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi gwella presenoldeb ysgol fel argymhelliad i'r Adran. O ganlyniad cafodd Strategaeth Presenoldeb ddiwygiedig ei chreu a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar bresenoldeb/absenoldeb. | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 15 | **% presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd (PAM/008)** | **86.4%** | 86.8% | **86.8%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r canlyniad o 86.8% yn unol â'r targed ond mae'n is na chyfradd Cymru gyfan o 88.0%, ond mae'n well na chanlyniad y llynedd o 86.4%.<br>Roedd arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi gwella presenoldeb ysgol fel argymhelliad i'r Adran. O ganlyniad cafodd Strategaeth Presenoldeb ddiwygiedig ei chreu a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar bresenoldeb/absenoldeb. | | | | | | | |
| 16 | **Preswylwyr sy'n credu bod ysgolion yn darparu lefel dda o addysg i bobl ifanc** | **0.41 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.27 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | *Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebion. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn cytuno bod ysgolion lleol yn darparu addysg dda i blant a phobl ifanc (gyda sgôr o 0.27). Fodd bynnag, mae'r sgôr wedi gostwng yn sylweddol oddi ar y flwyddyn flaenorol (0.41) gyda 20% o'r ymatebwyr yn anghytuno. | | | | | | | |

| Amcan Llesiant 2 - Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ein Cyfres Data Corfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2024/25 | | | | | | | | | | |
| | | Pa mor dda rydym ni wedi | Pa mor dda rydym ni yn ei wneud? | | | | | | | |
| | | | Gweler yr esboniad o berfformiad | | | | Gwybodaeth Gymharol Cymru | | | |
| Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | | |
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** | |
| **Amcan Llesiant 2 - Cyffredinol** | | | | | | | | | | |
| 1a | **Disgwyliad Oes Iach ar adeg genedigaeth (Gwryw)**<br><br>*Mae Disgwyliad Oes Iach yn mesur nifer y blynyddoedd y disgwylir i rywun fyw mewn iechyd da.* | **59.7 mlynedd (2018-20)** | Dim targed wedi'i bennu | **59.2 mlynedd (2021-23)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **60.3 mlynedd** | **62.9 mlynedd** | ** | |
| | | Yn gyffredinol, mae pobl yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen oherwydd datblygiadau mewn gofal iechyd a gwelliant cyffredinol mewn safonau byw. Mae Disgwyliad Oes Iach i ddynion yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn is nag ar gyfer menywod ac mae'n parhau i ostwng rhwng 2017-19 a 2018-20 o 60.4 i 59.7 mlynedd ac i 59.2 mlynedd yn 2021-23, ond mae'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach i ddynion a menywod wedi cau. Dyma'r 14eg lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n is na chyfartaledd Cymru sef 60.3 mlynedd. | | | | | | | | |
| 1b | **Disgwyliad oes iach ar adeg geni (Benyw)** | **61.8 mlynedd (2018-20)** | Dim targed wedi'i bennu | **57.9 mlynedd (2021-23)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **59.6 mlynedd** | **62.6 mlynedd** | * | |
| | | Er gwaethaf cynnydd yn y Disgwyliad Oes Iach i Fenywod rhwng 2017/19 a 2018/20 o 61.1 i 61.8 mlynedd, mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021/23 yn dangos gostyngiad sylweddol o bron i 4 blynedd i 57.9 mlynedd. Dyma'r 17eg lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol ac mae bron i 2 flynedd yn is nag oedran Cymru gyfan o 59.6 sydd hefyd wedi gostwng bron i 3 blynedd.Mae hyn yn ystyriaeth bwysig yn Sir Gaerfyrddin, gan fod y sir yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl dros 65 oed. O gyfuno hyn â Disgwyliad Oes Iach (sy'n is na'r cyfartaledd), gallai arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">2</td><td rowspan="2">Aelwydydd mewn amddifadedd materol<br><br>Mae amddifadedd materol yn fesur sydd wedi'i gynllunio i ddangos canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol hirdymor.</td><td>12.0%<br>(2021/22)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>16.7%<br>(2022/23)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td>15.5%</td><td>13.8%</td><td>**</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae lefelau amddifadedd materol yn codi.Mae'r data diweddaraf (2022/23) yn dangos bod 16.7% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn amddifadedd materol. Mae hyn yn uwch na ffigur Cymru gyfan o 15.3%, sef y 7$^{fed}$ lefel uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn gynnydd ar ffigurau 2021/22 (12%).Mae'r argyfwng costau byw parhaus hefyd yn debygol o gael effaith niweidiol ar lefelau amddifadedd aelwydydd.<br>Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith trawsadrannol sylweddol i gefnogi trigolion y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi arwain at ddatblygu Cynllun Trechu Tlodi sy'n annog dull integredig.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">Sgôr llesiant meddyliol oedolion<br><br>Yn seiliedig ar raddfa llesiant meddyliol oedolion Warwick-Edinburgh  - sgôr rhwng lleiafswm o 14 ac uchafswm o 70.</td><td>48.8 (sgôr)<br>(2021/22)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>48.3 (sgôr)<br>(2022/23)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td>48.2 (sgôr)</td><td>48.9 (sgôr)</td><td>**</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae'r Sgôr ar gyfer Llesiant Meddyliol Oedolion ar i lawr, sy'n gyson â thueddiadau cenedlaethol.<br>Y sgôr ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2022/23 oedd 48.3, a oedd yn ostyngiad ar y ffigurau blaenorol ar gyfer 2021/22 (48.8). Efallai bod hyn yn arwydd o effeithiau'r pandemig, pryd y gwelsom y newid mwyaf i fywyd arferol ers degawdau. Gwelwyd gostyngiadau ar lefel Cymru gyfan hefyd.Safle Sir Gaerfyrddin o gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yw'r 10$^{fed}$ isaf, o gymharu â'r 11$^{eg}$ isaf ar gyfer y flwyddyn flaenorol.<br>Mae canfyddiadau ymgynghoriad diweddar â phreswylwyr yn dynodi bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid rhoi ystyriaeth i gefnogi iechyd meddwl pobl yn y sir.<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddarparu lefelau hygyrch a phriodol o gymorth i unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar ehangu mynediad a chymorth i blant ac oedolion bregus.</td></tr>
</table>

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 4 | **Oedolion â 2 neu fwy o ymddygiadau ffordd o fyw iach** | **92.4% (2021/22)** | Dim targed wedi'i bennu | **92.5% (2022/23)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **92.3%** | **93.4%** | *** |
| | *Diffinnir ymddygiadau ffordd o fyw iach fel:• Peidio ag ysmygu,*<br>*• Bod o bwysau iach,*<br>*• Bwyta pum dogn o ffrwythau/llysiau y dydd,*<br>*• Peidio ag yfed alcohol yn ormodol, a*<br>*• Ymgymryd ag ymarfer corff yn unol â'r canllawiau.* | Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae nifer yr oedolion sydd â dau neu fwy o Ymddygiadau Ffordd o Fyw Iach yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ychydig o 92.4% i 92.5%. Mae hyn wedi golygu bod y sir yn arddangos y 9fed ffigur uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n welliant o fod y 13eg y flwyddyn flaenorol. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigur Cymru sef 92.3%. Byddai gwelliant parhaus ar gyfer y mesur hwn yn disgwyl gwelliant yn y Disgwyliad Oes Iach ond, yn anffodus, mae'r data Disgwyliad Oes Iach diweddaraf (2021/23) yn dangos dirywiad i ddynion ac i fenywod. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 2a - Blaenoriaeth Thematig - Trechu Tlodi** | | | | | | | | | |
| 5 | **% yr Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi** | **34.6% (2023)** | Dim targed wedi'i bennu | **30.7% (2024)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **29.7%** | **28.9%** | ** |
| | *Diffinnir tlodi fel 60% o Incwm Canolrifol Prydain (60% o £42,689 = £25,613 ar gyfer 2024)* | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2024) yn awgrymu bod 30.7% o'r holl aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, mae hyn yn cyfateb i tua 25,800 o aelwydydd. Mae hwn yn ostyngiad da o 34.6% yn 2023 a dyma'r isaf y mae wedi bod yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r tueddiadau a welir yn genedlaethol.<br>Mae gwaith trawsadrannol i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o fewn y Cyngor ac mae wedi atgyfnerthu a nodi'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gallwn ei wneud ac sydd angen i ni ei wneud. | | | | | | | |

| Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 6 | **Incwm Wythnosol Gros Canolrifol** | **£664.20 (2023)** | Dim targed wedi'i bennu | **£700.00 (2024)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **£684.40** | **£699.70** | **** |
| | | Mae hyn yn dangos cynnydd pellach yn yr enillion wythnosol gros cyfartalog yn Sir Gaerfyrddin, o £664.2 (2023) i £700.0 (2024) gyda'r 6ed ffigur uchaf yng Nghymru. Mae ffigurau Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o £684.4, ond maent yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU o £728.3. Mae'r bwlch yn y gyfradd fesul awr rhwng gweithwyr llawn amser gwrywaidd a benywaidd yn cau, gyda'r gyfradd fesul awr i fenywod yn uwch na'r gyfradd fesul awr i ddynion mewn un ar ddeg awdurdod, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin. Enillion gros yr awr ar gyfer gweithwyr llawn amser sy'n fenywod yn Sir Gaerfyrddin yw £17.65, a £17.62 i ddynion, sy'n golygu bwlch o 3c yn unig, o gymharu â £1.75 yn 2023. | | | | | | | |
| 7 | **Cymhareb Fforddiadwyedd Tai**<br>*Mae rhannu'r pris tŷ ar gyfer ardal benodol yn ôl ei henillion, yn creu cymhareb sy'n gweithredu fel dangosydd o fforddiadwyedd cymharol. Mae cymhareb uwch yn dangos, ar gyfartaledd, ei bod yn llai fforddiadwy i breswylydd brynu tŷ yn ardal ei awdurdod lleol. I'r gwrthwyneb, mae cymhareb is yn dynodi fforddiadwyedd uwch mewn awdurdod lleol.* | **Cymhareb 5.47 (2023)** | Dim targed wedi'i bennu | **Cymhareb 5.40 (2024)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **Cymhareb o 5.86** | **Cymhareb o 5.13** | *** |
| | | Cymhareb bresennol Sir Gaerfyrddin yw 5.40 sy'n sylweddol is na'r gymhareb uchaf yng Nghymru sef 8.51. Gostyngodd cymhareb Cymru o 6.21 i 5.86, ond rydym yn parhau i fod yn is na'r lefel hon. Sir Gaerfyrddin sydd â'r 8fed lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yn 2024. Dylid nodi y bydd fforddiadwyedd tai yn amrywio rhwng ardaloedd llai o fewn y sir.<br>Mae mynediad at dai fforddiadwy yn bwysig gan ei fod yn arwain at welliannau mewn iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. O'i roi'n syml - po fwyaf fforddiadwy yw tai, y mwyaf o arian sydd gan aelwydydd i'w wario ar y pethau eraill sydd eu hangen arnynt. Yn ei dro, mae hyn yn gwella ansawdd eu bywyd. Mewn ymgynghoriad diweddar, nododd preswylwyr ei bod yn bwysig bod pobl leol yn cael cymorth i brynu tai'n lleol. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 8 | **Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (PAM/012)** | **72.1%** | 73.5% | **69.1%** | ☹ | ▼ | **57.9% (2023/24)** | **67.1% (2023/24)** | **** |
| | | Gostyngiad mewn perfformiad yn ystod 2024/25 gyda dim ond 69.1% o aelwydydd wedi'u hatal rhag digartrefedd, i lawr o 72.1% yn 2023/24. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn uwch na chanran Cymru gyfan yn 2023/24 o 57.9% ac mae ychydig yn uwch na'r chwartel gorau o 67.1%. Ni fydd data cymharol ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyhoeddi tan ddiwedd Hydref 2025. Nifer yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod - bu gostyngiad o 42% yn y nifer (Adran 66) yn ystod 2024/25. | | | | | | | |
| 9 | **Preswylwyr sy'n credu bod tlodi yn broblem yn eu hardal hwy**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.24 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.18 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Derbyniodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr, gydag ymatebion cymysg i'r datganiad hwn - 32% o'r ymatebwyr yn nodi 'Nid y naill na'r llall'. Fodd bynnag, mae cyfran uwch yn gyffredinol yn cytuno bod tlodi yn broblem yn eu hardal hwy gyda Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS) o 0.18. Mae hyn yn ostyngiad bach ar sgôr 2023 o 0.24 ond mae'n parhau i ddynodi cytundeb cyffredinol. | | | | | | | |
| 10 | **Amser cyfartalog a gymerwyd i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/Treth Gyngor newydd (6.6.1.2)** | **13 diwrnod** | 17 diwrnod | **10.52 diwrnod** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau i brosesu Hawliadau Budd-daliadau Tai/Treth Gyngor newydd yn parhau i ostwng yn ystod 2024/25 i 10.52 diwrnod. Dyma'r isaf y mae wedi bod erioed. | | | | | | | |
| 11 | **Amser cyfartalog a gymerwyd i brosesu hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau at ddibenion Budd-dal Tai/Treth Gyngor (6.6.1.3)** | **3.02 diwrnod** | 4 diwrnod | **2.38 diwrnod** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau i brosesu newid mewn amgylchiadau at ddibenion Budd-dal Tai/Treth Gyngor hefyd wedi gostwng i'w lefelau isaf erioed o 2.38 diwrnod yn ystod 2024/25. | | | | | | | |
| 12 | **Nifer yr unigolion a gefnogwyd trwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill cyflog byw gwirioneddol (EconD/023)** | **158** | 100 | **151** | ☺ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd 151 o unigolion eu cefnogi trwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill y cyflog byw gwirioneddol yn ystod 2024/25. Mae hyn yn ostyngiad bach yn y nifer o gymharu â 158 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd llawer o'r cleientiaid a gefnogwyd yn dal i dderbyn cyngor ac arweiniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd eu bod yn profi rhwystrau lluosog a bod ganddynt anghenion cymhleth. Felly, mae angen cymorth ychwanegol cyn y gallant gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. | | | | | | | |

| Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 2b - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Tai** | | | | | | | | | |
| 13 | **Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gwblhau'r holl atgyweiriadau tai (Atgyweiriadau/001)** (yn flaenorol PAM/037) | **15 diwrnod** | 15 diwrnod | **20 diwrnod** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cymerodd 20 diwrnod calendr ar gyfartaledd i gwblhau'r holl atgyweiriadau tai cyngor yn ystod 2024/25. Mae hyn yn uwch na'r disgwyl, wrth i'r galw am atgyweiriadau ymatebol barhau i gynyddu ac effeithio ar ein gallu i gyrraedd y targed. Mae cynllun gwella gwasanaeth newydd wedi'i ddatblygu a fydd yn mabwysiadu dull graddol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol. Bydd hyn i ddechrau yn cynnwys gwaith manwl yn ymwneud â deall y galw presennol a'r ôl-groniad o atgyweiriadau ymatebol, mwy o ffocws ar fân waith wedi'i becynnu, ac aildrefnu'r adnoddau presennol i fodloni blaenoriaethau a risgiau cyfredol. | | | | | | | |
| 14 | **Nifer yr eiddo gwag yn y sector preifat a ddychwelwyd i'w defnyddio trwy ymyrraeth uniongyrchol (HS-EMP/001)** | **104 eiddo** | 150 eiddo | **239 eiddo** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cynhaliodd swyddogion adolygiad cynhwysfawr o eiddo gwag y gwnaed defnydd ohonynt unwaith eto. Oherwydd oedi a rhwystrau wrth gyflwyno'r Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol, roedd ein dull yn canolbwyntio mwy ar gamau gorfodi a chysylltu hyn â phremiwm y Dreth Gyngor. Rydym wedi dod i sylweddoli bod cymryd y dull hwn a chyflwyno neges gryfach i berchnogion am ein galluoedd gorfodi yn llawer mwy effeithiol wrth ddychwelyd eiddo i gael eu defnyddio unwaith eto, yn hytrach na buddsoddi amser sylweddol mewn gweinyddu benthyciadau/grantiau sydd naill ai ddim yn cael eu cyhoeddi neu ddim yn cael effaith ar y rheiny sy'n dewis peidio â chydymffurfio. Mae llawer o'r llwyddiant hwn yn seiliedig ar ddarparu'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd eu hangen ar berchnogion tai gwag i adnewyddu neu newid perchnogaeth eiddo, gyda rhywfaint o waith mwy dwys ynghylch ymyrraeth statudol a gorfodi'r gwerthiant. Roedd yna 1,868 o eiddo yn Sir Gaerfyrddin a oedd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o gymharu â 2,144 ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae hyn yn ostyngiad o 13%. | | | | | | | |
| 15 | **% y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo yn wag (PAM/039)** | **2.2%** | 2.0% | **1.9%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae colledion yn sgil eiddo gwag yn parhau i fod o fewn y targed, yn bennaf oherwydd y gronfa contractwyr estynedig a sefydlwyd trwy'r Fframwaith Gwaith Eiddo newydd. Mae hyn wedi gwella capasiti cyffredinol y contractwyr yn sylweddol. | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 2c - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Gofal Cymdeithasol** | | | | | | | | | |
| 16 | **Nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty am ofal cartref (ASC-001)** | **7 o bobl @ diwedd Mawrth 2024** | Dim targed wedi'i bennu | **5 o bobl @ diwedd Mawrth 2025** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Rydym yn parhau i fod mewn sefyllfa sefydlog gyda gostyngiad yn y niferoedd sy'n aros yn yr ysbyty am ofal cartref. Mae hyn er gwaethaf cymhlethdod cynyddol yn ein llwythi achosion ac mae'n dangos bod ein llwybrau cymunedol ataliol yn gweithio i reoli'r galw sy'n dod drwy'r system. Mae cyllid Llywodraeth Cymru a roddwyd i'r fenter her 50 diwrnod yn rhan olaf 2024/25 wedi cyfrannu at greu capasiti ychwanegol yn y system, sydd yn ei dro wedi lleihau'r niferoedd sy'n aros am ofal cartref. | | | | | | | |
| 17 | **% y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff sy'n cwblhau'r rhaglen 16 wythnos (PAM/041)** | **70.2%** | 50.0% | **43.0%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Nid yw'r canlyniad yn cyrraedd y targed ac mae gryn dipyn yn is na chanlyniad y llynedd, ond y newyddion da yw bod mwy o gleientiaid yn dechrau'r sesiynau. Mae'n galonogol bod 70% o'r cleientiaid hynny a gwblhaodd y rhaglen 16 wythnos o hyd a'r arolygon ymadael wedi dweud bod eu hiechyd wedi gwella ar gwblhau'r rhaglen ymarfer corff. | | | | | | | |
| 18 | **Nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG/001)** | **273 diwrnod** | 275 diwrnod | **272 diwrnod** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i fod yn uchel sef 272 diwrnod yn ystod 2024/25. Mae hyn yn welliant bach iawn o gymharu â 273 diwrnod yn ystod y flwyddyn flaenorol.<br>Yn sgil dileu'r prawf modd ym mis Chwefror 2022 bu cynnydd sylweddol yn y galw am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Er mwyn rheoli gwariant, gwnaethom gyflwyno Cymeradwyaethau Taliadau Gohiriedig. Fodd bynnag, mae'r mesur hwn hefyd wedi arafu pa mor gyflym y mae contractwyr yn cwblhau prosiectau, o bosibl gan effeithio ar amseroedd cyflenwi yn 2025/26. Mae ailgyflwyno'r prawf modd yn ddiweddar wedi lleihau nifer y ceisiadau newydd am Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi cynyddu. Bydd y galw yn parhau i gael ei reoli o fewn y gyllideb sydd ar gael. | | | | | | | |

| **Amcan Llesiant 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ein Cyfres Data Corfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2024/25** | | | | | | | | | |
| | | **Pa mor dda rydym ni wedi gwneud?** | **Pa mor dda rydym ni yn ei wneud?** | | | | | | |
| | | | **Gweler yr esboniad o berfformiad** | | | | **Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan.** | | |
| **Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad** | | **2023/24 neu ganlyniad blaenorol** | **2024/25 neu'r diweddaraf** | | | | | | |
| | | **Ein Canlyniad** | **Targed** | **Gwir Ganlyniad** | **Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹** | **A wnaethon ni wella ▲ neu ▼** | **Cyfradd Cymru Gyfan** | **Chwartel Gorau Cymru** | **Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****** |
| **Amcan Llesiant 3 - Cyffredinol** | | | | | | | | | |
| 1 | **Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen**<br><br>*Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn amcangyfrif o faint o arian sydd gan aelwyd i'w wario ar nwyddau a gwasanaethau ac i'w gynilo.* | **£17,501 (2021)** | Dim targed wedi'i bennu | **£18,179 (2022)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **£18,652** | **£19,169** | ** |
| | | Mae incwm gwario aelwydydd yn codi ond mae'r lefelau'n parhau i fod yn is na'r cyfraddau cenedlaethol. Yn 2022 gwelwyd twf o 5.3% mewn Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yn y DU o gymharu â 2021. O holl wledydd y DU, Gogledd Iwerddon oedd â'r twf uchaf o 6.0%, ac yna Lloegr gyda 5.4%, yna'r Alban gyda 4.9%. Cymru oedd â'r twf isaf o 3.5%. Cymru sydd â'r ail gyfradd isaf o blith holl wledydd y DU, gyda £18,652 - y tu ôl i Ogledd Iwerddon gyda £18,685.<br>Gwelodd Sir Gaerfyrddin dwf o 3.9% dros yr un cyfnod i £18,179 yn 2022. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'r lefel hon yn parhau i fod yn is na lefel Cymru (£18,652) ac mae'n sylweddol is na lefel y DU (£22,789). | | | | | | | |
| 2 | **Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar y ffyrdd** | **138 o bobl (2023)** | Dim targed wedi'i bennu | **161 o bobl (2024)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **1,086 Cyfanswm Cymru** | **25 o bobl** | * |
| | | Yn anffodus, cynyddodd nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin i 161 yn ystod 2024. Dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru ac mae'n gynnydd o 17% o gymharu â ffigur 2023 o 138. Roedd 29 o'r rhain yn feicwyr modur, a gynyddodd o 27 y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd uchaf o 20% ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed, o 30 yn 2023 i 36 yn 2024 - dyma'r nifer uchaf yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud ffyrdd y Sir yn fwy diogel drwy weithio mewn partneriaeth gryfach i godi ymwybyddiaeth, addysgu a hyfforddi pob math o ddefnyddwyr ffyrdd er mwyn gwella sgiliau ac ymddygiad. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer.<br>Mae'r mesur hwn yn rhoi syniad o ansawdd yr aer trwy roi crynodiad cyfartalog o lygryddion yn yr aer.</td><td>4.3 (µg/m3) (2021)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>4.7 (µg/m3) (2022)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td>7.7 (µg/m3)</td><td>4.4 (µg/m3)</td><td>***</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn dilyn cyfnod cadarnhaol lle roedd lefelau Nitrogen Deuocsid yn yr aer yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng, rydym wedi gweld cynnydd parhaus anffodus ers hynny. Cynyddodd y lefelau o 4.2 (µg/m3) yn 2020 i 4.3 (µg/m3) yn 2021, ac maent wedi parhau ar y taflwybr hwn yn ôl y ffigurau diweddaraf o 2022 - 4.7 (µg/m3). Mae hyn yn gyson â'r ffigurau cenedlaethol. Mae Sir Gaerfyrddin yn cymharu'n ffafriol â ffigurau Cymru gyfan o 7.7 (µg/m3), ac mae gennym y $7^{fed}$ lefel isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Mae nitrogen deuocsid yn un o sawl llygrydd mawr ac mae'n cael ei ryddhau i'r aer trwy losgi tanwydd. Mae'r llygryddion hyn nid yn unig yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar iechyd pobl, maent hefyd yn gwaethygu'r argyfyngau hinsawdd a natur yr ydym yn eu hwynebu.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">4</td><td rowspan="2">Cyfraddau troseddu fesul 1,000 o’r boblogaeth</td><td>58 o droseddau wedi'u cofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>70 o droseddau wedi'u cofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>q</td><td>83 o droseddau wedi'u cofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth</td><td>66 o droseddau wedi'u cofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth</td><td>***</td></tr>
<tr><td colspan="8">Bu cynnydd o 18.9% yn nifer y troseddau a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin, o 58 o droseddau fesul 1,000 yn 2023/24 i 70 o droseddau fesul 1,000 yn 2024/25. Mae'r cynnydd cymharol hwn yn gyson â'r holl Awdurdodau Lleol eraill yn Ardal Heddlu Dyfed-Powys ac yn unol â gwelliant ledled ardal y Llu mewn arferion cofnodi troseddau ac ansawdd data. Er gwaethaf y cynnydd, mae cyfradd y Sir yn dal i fod yn is na chyfradd Cymru (83 fesul 1,000).<br>Adroddwyd am 13,145 o droseddau yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2024/25, i fyny o 11,059 y flwyddyn flaenorol. Roedd y troseddau a adroddwyd y nifer uchaf o weithiau yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda Thrais yn erbyn yr Unigolyn, Troseddau Dwyn, Trais Heb Anaf, a Throseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus yn parhau i fod y troseddau gyda'r niferoedd uchaf. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau o droseddau a gaiff eu categoreiddio fel Trais yn erbyn yr Unigolyn a Thrais Heb Anaf, a gododd 19.3% a 18.0% yn y drefn honno ers y flwyddyn flaenorol.Nodyn: Nid yw'r ystadegau yn cynnwys twyll. Yn ogystal, mae gan Heddlu Dyfed-Powys nifer o droseddau sydd wedi'u hadrodd ond sydd 'heb eu neilltuo' yn eu hystadegau, a allai olygu bod y cyfraddau troseddu yn uwch yn y sir.</td></tr>
</table>

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 3a - Blaenoriaeth Thematig - Adferiad a Thwf Economaidd** | | | | | | | | | |
| 5a | **Cyfraddau Cyflogaeth** | **72.0% (Mawrth 2024)** | Dim targed wedi'i bennu | **72.8% (Mawrth 2025)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **73.4% (Mawrth 2025)** | **74.5% (Mawrth 2025)** | ** |
| | | Roedd y ffigurau cyflogaeth wedi cynyddu ychydig yn Sir Gaerfyrddin ar ddiwedd mis Mawrth 2025 i 72.8% o gymharu â 72.0% ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae hyn yn parhau i fod yn is na chyfraddau Cymru a'r DU o 73.4% a 75.4% yn y drefn honno. | | | | | | | |
| 5b | **Cyfraddau Diweithdra** *Mae person yn ddi-waith os yw'n mynd ati i chwilio am waith neu ar gael i weithio* | **3.0% (Mawrth 2024)** | Dim targed wedi'i bennu | **3.6% (Mawrth 2025)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **3.5% (Mawrth 2025)** | Ddim yn berthnasol | |
| | | Roedd y ffigurau diweithdra wedi cynyddu ychydig yn Sir Gaerfyrddin hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 i 3.6% o gymharu â 3.0% ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae hyn yn uwch na chyfradd Cymru o 3.5% ond yn is na ffigur y DU o 3.8%. | | | | | | | |
| 6a | **Oedolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau ar Lefel 4 neu uwch** | **46.3%** | Dim targed wedi'i bennu | **40.7%** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **46.4%** | **51.9%** | * |
| | | Bu gostyngiad yng nghyfran y bobl rhwng 18 a 64 oed sydd â chymwysterau ar Lefel 4 neu uwch yn Sir Gaerfyrddin am y tro cyntaf ers 2020. Mae'r data diweddaraf (Rhagfyr 2024) yn dangos 40.7%, sy'n ostyngiad sylweddol o 46.3% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn gryn dipyn yn is na lefel Cymru o (46.4%), a gynyddodd o 45% y flwyddyn flaenorol. Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. | | | | | | | |
| 6b | **Oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau** | **5.3%** | Dim targed wedi'i bennu | **6.4%** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **7.9%** | **4.6%** | *** |
| | | Yn dilyn tuedd am i lawr dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yng nghyfran y bobl rhwng 18 a 64 oed heb unrhyw gymwysterau yn ôl y data diweddaraf o fis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn dangos canlyniad o 6.4% o gymharu â 5.3% y flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i fod yn is na chyfradd Cymru gyfan o 7.9%, a arhosodd yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r bwlch wedi cau.<br>Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">7a</td><td rowspan="2">Genedigaethau busnes</td><td>630<br>(2022)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>545<br>(2023)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td>10,520<br>(cyfanswm Cymru)</td><td>541</td><td>****</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn dilyn rhywfaint o farweidd-dra rhwng 2017 a 2019, dangosodd cyfraddau genedigaethau busnes yn y sir arwyddion o welliant yn ystod 2021 gydag 820 o enedigaethau busnes. Fodd bynnag, byrhoedlog oedd hyn gyda'r ffigurau'n gostwng eto. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2023 yn dangos bod 545 o fusnesau wedi agor/dechrau, sydd 85 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae effaith yr argyfwng economaidd a biliau ynni cynyddol wedi effeithio ar lawer o fusnesau ac wedi bod yn rhwystr i bobl rhag agor busnesau newydd.<br>Roedd y sectorau gyda'r nifer fwyaf o fusnesau newydd ym maes Adeiladu a Phroffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol - pob un gyda 85 (o gymharu â 115 ac 80 yn y drefn honno y flwyddyn flaenorol). Yn dilyn y rhain yr oedd Gwasanaethau Llety a Bwyd gyda 70, i lawr o 85 yn y flwyddyn flaenorol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">7b</td><td rowspan="2">Cau Busnesau (Cyfeirir atynt fel 'Marwolaethau' yn y data swyddogol)</td><td>715<br>(2022)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>610<br>(2023)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▲</td><td>11,300<br>(cyfanswm Cymru)</td><td>311</td><td>*</td></tr>
<tr><td colspan="8">Roedd llai o fusnesau yn cau (610 yn cau) yn 2023 o gymharu â 715 yn 2022. Mae Covid, yr argyfyngau economaidd, biliau ynni cynyddol, a recriwtio staff i gyd wedi cael effaith ac yn gwneud rhedeg busnes yn heriol iawn. Sir Gaerfyrddin sydd â'r 6ed nifer uchaf o fusnesau'n cau o'r holl awdurdodau yng Nghymru, y tu ôl i Gaerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Sir y Fflint a Chasnewydd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">8</td><td rowspan="2">Nifer y Swyddi Uniongyrchol a grëwyd (gan gynnwys swyddi mewn lleoliad newydd a rhoi mewn Swyddi) gyda chymorth Adfywio (EconD/009)</td><td>669</td><td>1,257</td><td>1,353</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafodd 1,353 o swyddi uniongyrchol eu creu ledled Sir Gaerfyrddin gyda chymorth Adfywio yn ystod 2024/25. Mae hyn yn newyddion ardderchog ac yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">9</td><td rowspan="2">Nifer y Swyddi Anuniongyrchol a grëwyd (swyddi anuniongyrchol a swyddi adeiladu) gyda chymorth Adfywio (EconD/010)</td><td>286</td><td>565</td><td>436</td><td>☹</td><td>▲</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafodd 436 o swyddi anuniongyrchol eu creu gyda chymorth Adfywio yn ystod 2024/25. Gwelliant da o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond ni lwyddwyd yn hollol i gyrraedd y targed disgwyliedig oherwydd rhywfaint o oedi gyda phrosiectau a ariennir gan grantiau trydydd parti ac oedi i brosiectau Pentre Awel a Hwb Caerfyrddin.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 10 | **Nifer y bobl a gafodd eu helpu i wirfoddoli gyda chymorth Adfywio (EconD/005)** | **722** | 2,318 | **3,953** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd 3,953 o bobl eu helpu i wirfoddoli gyda chymorth Adfywio drwy'r Biwro, Cymunedau am Waith a Mwy, Cronfa Buddsoddi Gwledig y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Cronfa Cymunedau Cynaliadwy, Cronfa Ddigwyddiadau'r Deg Tref, Pentre Awel, Sgiliau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, Refeniw'r Deg Tref, Economi Gylchol y Deg Tref, Fusion, Gweithgareddau Cysylltiedig â Chanol Trefi, a Gweithio Sir Gâr. | | | | | | | |
| 11 | **Nifer yr wythnosau o recriwtio a hyfforddi a ddarperir i bobl drwy Fudd i'r Gymuned ym Mhrosiectau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Tai ac Adfywio (CP/001)** | **3,595** | 2,642 | **5,011** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Darparwyd 5,011 wythnos o recriwtio a hyfforddi drwy Fudd i'r Gymuned yn ystod 2024/25 - sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed ac yn gynnydd o 39% o gymharu â 2023/24. | | | | | | | |
| 12 | **Lefel buddsoddiad y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd (£) (EconD/008)** | **£35,039,140** | £38,492,169 | **£58,378,868** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Sicrhawyd dros £58m o gyllid yn ystod 2024/25 gan Ddatblygu Economaidd drwy Fuddsoddi yn y Sector Preifat ac amryw o geisiadau llwyddiannus am gyllid allanol. Mae hyn yn gyflawniad enfawr. | | | | | | | |
| 13 | **Nifer y tai fforddiadwy ychwanegol yn y Sir (7.3.2.24)** | **331** | 264 | **361** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae 361 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu yn 2024/25, sy'n rhagori ar y targed a osodwyd o 97 o dai. Yn gyfan gwbl, mae'r rhaglen tai fforddiadwy wedi darparu 2,452 o dai ychwanegol ers iddi ddechrau yn 2016. | | | | | | | |
| 14 | **Cefnogir busnesau o fewn yr ardal leol**<br><br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **-0.24 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.30 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Derbyniodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr, gyda'r gyfran fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi 'nid y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod' ar gyfer y datganiad hwn. Mae hyn yn awgrymu naill ai nad oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn y sefyllfa orau i ateb gan nad ydynt o bosib yn berchen ar fusnes, neu nad ydynt yn ymwybodol o'r modd y cefnogir busnesau yn y sir. Mae dadansoddiad pellach yn dynodi, ac eithrio'r ymatebwyr hyn, fod y lefelau anghytuno yn uwch (33%) na'r lefelau cytuno (14%). Mae dadansoddiad pellach yn dynodi bod y sgoriau isaf ar gyfer ardal gymunedol Llanelli. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chanfyddiad preswylwyr o ganol trefi a'r canfyddiad bod diffyg buddsoddi yn digwydd yn yr ardaloedd hynny. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 15 | **Caiff pobl leol eu cefnogi'n dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol**<br><br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **-0.16 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.15 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr, gyda chyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn dynodi 'nid y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn teimlo bod pobl leol yn cael eu cefnogi'n dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol. Roedd y safbwyntiau pellach yn gymysg, gyda mwy o bobl yn anghytuno (32%) nag yn cytuno (22%). Mae dadansoddiad pellach yn dynodi bod y sgoriau isaf ar gyfer ymatebwyr a oedd yn byw yn ardal gymunedol Llanelli. Yn ogystal, roedd ymatebwyr anabl, y rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu, y rheiny sydd ag incwm aelwyd o dan £30,000 y flwyddyn, a chyn-filwyr hefyd yn dynodi sgoriau is. | | | | | | | |
| 16 | **% y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser gofynnol [PLA/009)** | **69.7%** | 80.0% | **86.4%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae 86.4% yn ganlyniad ardderchog, gyda 19 o'r 22 cais cynllunio mawr a bennwyd yn ystod 2024/25 wedi'u cwblhau yn y cyfnod amser. Mae hyn yn welliant da o gymharu â chanlyniad 2023/24 o 69.7% (23 allan o 33). | | | | | | | |
| 17 | **% yr anfonebau diddadl a dalwyd mewn 30 diwrnod (CFH/006)** | **94.9%** | 95.0% | **95.6%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Roedd cynnydd o 7% yn nifer yr anfonebau a dderbyniwyd yn ystod 2024/25 (o 311,466 yn 2023/24 i 333,272 yn 2024/25). Er gwaethaf y cynnydd hwn, talwyd 95.6% o anfonebau o fewn 30 diwrnod. Mae hyn yn uwch na'r targed ac mae'n dangos gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (94.9%). | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3b - Blaenoriaeth Thematig - Datgarboneiddio / Argyfwng Hinsawdd a Natur** | | | | | | | | | |
| 18 | **Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol (mewn MW).** | **333 MW o ynni (2022)** | Dim targed wedi'i bennu | **346 MW o ynni (2023)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **4,532 MW o ynni i Gymru** | **271 MW o ynni** | **** |
| | | Sir Gaerfyrddin yw un o'r siroedd mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn cadarnhau'r dull blaengar y mae'r sir yn ei fabwysiadu o ran mynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan yr argyfyngau hinsawdd a natur.<br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2023 yn dangos bod cyfanswm o 10,103 o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin yn cynhyrchu 346MW o ynni. Dyma'r bedwaredd lefel uchaf yng Nghymru ac mae'n gynnydd o gymharu â ffigurau 2022. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">19</td><td rowspan="2">Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn <u>perygl canolig neu fawr</u> o lifogydd o afonydd, dŵr llanw neu ddŵr wyneb</td><td>5,443 eiddo (2019)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>6,919 eiddo (2024)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td>93,669 eiddo yng Nghymru</td><td>2,434 eiddo</td><td>*</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae llifogydd bob amser yn bryder yn Sir Gaerfyrddin. Yn ôl data 2024 gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae dros 18,000 o fusnesau a chartrefi mewn perygl o lifogydd afonol, llanwol neu ddŵr wyneb. Mae hyn yn gynnydd o'r 15,000 yn 2019.<br>Bu cynnydd yn nifer yr eiddo sydd mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd rhwng 2019 a 2024 ym mhob un o'r tri chategori. Bu cynnydd o 28% mewn perygl o lifogydd afonydd, cynnydd o 20% mewn perygl o lifogydd o'r môr, a chynnydd o 27% mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb. Yn 2019, roedd dros 5,400 o eiddo preswyl ac eiddo amhreswyl yn Sir Gaerfyrddin mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd ac mae hyn bellach wedi codi i ychydig o dan 7,000. O ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd hyn yn mwy na dyblu i dros 15,500 erbyn 2120. Mae bygythiad cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am amddiffynfeydd llifogydd addas a chymesur i ddiogelu'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Trwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr y Cyngor a'r Cynllun Rheoli Traethlin, mae nifer o ymyriadau wedi'u cwblhau. Mae hyn yn cynnwys gosod amddiffynfeydd newydd ac uwchraddio amddiffynfeydd presennol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">20</td><td rowspan="2">Mae'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw lleol<br>Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>-0.05 (Sgôr AIS)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>-0.10 (Sgôr AIS)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr, gyda'r gyfran fwyaf (42%) yn ateb 'nid y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a oedd yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw lleol. Mae hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. O ddadansoddi ymhellach ac eithrio'r rheiny a atebodd 'nid y naill na'r llall', mae ychydig mwy o bobl yn anghytuno (24%) nag sy'n cytuno (19%). Gallai hyn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o'r mesurau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael ag un o broblemau mwyaf dybryd ein hoes.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 3c - Blaenoriaeth Thematig - Y Gymraeg a Diwylliant Cymru** | | | | | | | | | |
| 21 | **% yr holl breswylwyr arferol 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg** | **43.9% (Cyfrifiad 2011)** | Dim targed wedi'i bennu | **39.9% (Cyfrifiad 2021)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **17.8%** | **21.2%** | **** |
| | | Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022 yn dangos gostyngiad pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin - i lawr i 39.9% o'r boblogaeth, sy'n cyfateb i 72,838 o siaradwyr Cymraeg.<br>Yr unig grŵp oedran sydd wedi gweld cynnydd bach iawn yw'r rhai rhwng 25 a 34 oed, gyda gostyngiadau i'w gweld ym mhob categori oedran arall. Mae'r gostyngiad mwyaf sylweddol yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer pobl 65 i 74 oed, gyda gostyngiad o 9.4 pwynt canran. Fodd bynnag, mae pob grŵp oedran dros 65 yn dangos gostyngiad mawr. Gwelwyd gostyngiad ymhob awdurdod lleol yng nghanran y plant rhwng 3 a 15 oed y dywedir eu bod yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (gweler y manylion isod). Mae ein 'Strategaeth i Hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin 2023-28' yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i adfer y Gymraeg yn y Sir drwy gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r sefyllfaoedd lle gall pobl siarad Cymraeg, codi statws yr iaith, cefnogi cymunedau i gynnal yr iaith, a thrwy gael effaith gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth. | | | | | | | |
| 22 | **% yr holl breswylwyr arferol rhwng 3 a 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg** | **57.7% (Cyfrifiad 2011)** | Dim targed wedi'i bennu | **55.1% (Cyfrifiad 2021)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | **32.0%** | **34.7%** | **** |
| | | Gwelwyd gostyngiad ymhob awdurdod lleol yng nghanran plant rhwng 3 a 15 y dywedir y gallant siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021.<br>Ar lefel genedlaethol credir bod y gostyngiad yn nifer a chanran pobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn digwydd yn bennaf oherwydd gostyngiad ymhlith plant a phobl ifanc y dywedwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.<br>Yn Sir Gaerfyrddin, mae nifer y rheiny rhwng 3 a 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ychydig dros 15,000 - sy'n ostyngiad o 500, lleihad o 2.6 pwynt canran.Roedd gostyngiadau hefyd i'w gweld yn y categorïau oedran 16 i 64 a 65 a throsodd, er ar lefelau mwy sylweddol na'r grŵp oedran iau. Ceir gostyngiad o 8.7 pwynt canran yn y rheiny dros 65 oed sy'n gallu siarad Cymraeg. | | | | | | | |

| Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 23 | **% y bobl sy'n mynd i neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn** | **64.2%** **(2019/20)** | Dim targed wedi'i bennu | **75.9%** **(2022/23)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | **72.1%** | **76.0%** | *** |
| | | Yn ôl data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23, mae Presenoldeb/Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Celfyddydau, Diwylliant, neu Dreftadaeth wedi cynyddu o gymharu â chanlyniadau blaenorol 2019/20. Nid yw hyn yn syndod gan fod y data blaenorol yn cwmpasu dechrau'r Cyfyngiadau Covid.<br>Mae bod yn bresennol a/neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth yn gysylltiedig â gwell iechyd a llesiant yn gyffredinol. Mae digwyddiadau o'r fath hefyd yn sail i greu ymdeimlad o le a hunaniaeth genedlaethol. | | | | | | | |
| 24 | **Nifer y cwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a dderbyniwyd (Comp/002)** | **8** | Dim targed wedi'i bennu | **4** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r Tîm Cwynion Corfforaethol yn rheoli unrhyw gwynion a dderbynnir am ddiffyg cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu gan Gomisiynydd y Gymraeg a'i swyddfa. Yn ystod 2024/25, derbyniwyd pedair cwyn mewn perthynas â diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | | | | | | | |
| 25 | **% y staff ar Lefel 3 neu uwch o'r fframwaith sgiliau Cymraeg (ac eithrio staff ysgolion) (Cym/001)** | **29.1%** | Dim targed wedi'i bennu | **38.2%** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer cyffredinol y staff sydd â sgiliau Cymraeg ar Lefel 3 neu uwch wedi cynyddu o 1,930 i 2,570 - cynnydd o 33. | | | | | | | |
| 26 | **Mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hamddiffyn.**<br>*Allwedd AIS: Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.74** **(Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.70** **(Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Derbyniodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno ei bod yn bwysig hyrwyddo ac amddiffyn y Gymraeg. Fodd bynnag, mynegodd rhai preswylwyr safbwyntiau i'r gwrthwyneb.<br>Roedd y sgoriau uchaf ar gyfer ymatebwyr sy'n byw yn ardaloedd cymunedol Aman (0.78), Teifi (0.77), a Gwendraeth (0.72. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod yr ardaloedd hyn yn gartref i'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg fel cyfanswm o'u poblogaeth. Ar ben hynny, roedd y sgôr yn sylweddol uwch ymhlith y grŵp oedran 16 i 24 oed a'r rheiny sy'n gallu siarad Cymraeg. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 27 | **Nifer y staff a gwblhaodd gyrsiau dysgu a gwella sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn (Cym/003)** | **242 (Blwyddyn Academaidd 2022/23)** | Dim targed wedi'i bennu | **179 (Blwyddyn Academaidd 2023/24)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r mesur hwn yn seiliedig ar y Flwyddyn Academaidd (Medi i Awst), gyda 179 aelod o staff yn mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau rhwng Medi 2023 a Mehefin 2024. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3d - Blaenoriaeth Thematig - Diogelwch a Chydlyniant Cymunedol** | | | | | | | | | |
| 28 | **Rwy'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin**<br><br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **1.16 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **1.16 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr. Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn dal i gytuno'n gryf (82%) eu bod yn hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y sgoriau uchaf ar gyfer ardaloedd cymunedol Tywi a Theifi a'r sgoriau isaf yn Llanelli. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod y sgoriau isaf ymhlith y grŵp oedran iau. | | | | | | | |
| 29 | **Rwy'n teimlo y gallaf fyw'r bywyd yr wyf am ei fyw heb ofn barn na rhagfarn.**<br><br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.49 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.54 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr. Mae'r ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth eu bod yn gallu byw'r bywyd y maent am ei fyw heb ofni barn na rhagfarn. Fodd bynnag, roedd y niferoedd a gytunai â'r gosodiad hwn yn is ymhlith aelodau'r gymuned LGBTQ+ ac ymatebwyr ag anableddau. Mae hyn yn foethusrwydd nad yw pawb ar draws y byd yn gallu ei fwynhau, felly mae'r ffaith bod trigolion ar y cyfan yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn tystio i natur Sir Gaerfyrddin fel lle a'i phobl. Mae hyn yn rhan annatod o'r ymdeimlad o berthyn, ac yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hapusrwydd cyffredinol. Mae pobl hapusach yn byw bywydau hapusach ac mae hynny, yn ei dro, yn eu galluogi i gyfrannu mewn modd cadarnhaol i'w cymunedau | | | | | | | |

# ATODIAD 5

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 30 | **Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned.** *Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.55 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.61 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Sir Gaerfyrddin sydd ag un o'r cyfraddau troseddu isaf o blith holl siroedd Cymru. Mae'r sgôr gadarnhaol i'r gosodiad hwn yn cadarnhau hyn, gyda 67% o'r mwy na 3,500 o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Fodd bynnag, ceir gwahaniaeth o fewn ardaloedd cymunedol lleol, gyda Llanelli yn arddangos sgôr gymharol is nag ardaloedd eraill. Er bod hynny'n wir, mae'r sgôr wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n awgrymu bod teimladau wedi gwella ers diwedd y digwyddiadau emosiynol yng Ngwesty Parc y Strade. | | | | | | | |
| 31 | **% y sefydliadau bwyd sy'n bodloni safonau hylendid bwyd (PAM/023)** | **99.13%** | 95.00% | **99.22%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r safonau hylendid bwyd mewn sefydliadau bwyd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uchel yn 2024/25, sef dros 99%. | | | | | | | |
| 32 | **% y busnesau Safonau Masnach risg uchel a oedd yn agored i arolygiad fel rhan o raglen a gafodd eu harolygu (PPN/001i)** | **49.0%** | 100% | **100.0%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd pob un o'r 173 (100%) o fusnesau Safonau Masnach a oedd i fod i gael arolygiad wedi'i raglennu yn ystod 2024/25 eu harolygu. Mae hyn yn llawer gwell na pherfformiad 2023/24. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3e - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Hamdden a Thwristiaeth** | | | | | | | | | |
| 33 | **Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCL/001)** | **3,490** fesul 1,000 o'r boblogaeth | **3,507** fesul 1,000 o'r boblogaeth | **3,937** fesul 1,000 o'r boblogaeth | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafwyd bron i 750,000 o ymweliadau (yn bersonol ac ar-lein) â'n llyfrgelloedd yn ystod 2024/25. Mae hyn yn welliant o 13% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sef 660,000. Cyflawnwyd y cynnydd hwn trwy amryw ddigwyddiadau yn ein llyfrgelloedd ledled y sir megis digwyddiadau Makerspace, Clybiau Sadwrn, Sesiynau Hyfforddi Digidol, Clybiau Crosio a Gwnïo, ymweliadau Diwrnod y Llyfr, Ffeiriau Crefftau Nadolig, ac ati. Mae ein hymweliadau digidol yn parhau'n uchel, gyda chwsmeriaid yn elwa ar ein hystod o e-lyfrau digidol, e-lyfrau llafar, papurau newydd, cylchgronau ac apiau hyfforddi. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 34 | **Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (PAM/017)** | **8,487** fesul 1,000 o'r boblogaeth | 8,732 fesul 1,000 o'r boblogaeth | **10,214** fesul 1,000 o'r boblogaeth | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer yr ymwelwyr â'n canolfannau hamdden yn ystod 2024/25 ar ei uchaf erioed - ychydig o dan 2m (1,941,547). Mae hyn yn cyfateb i ychydig dros 10,000 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae twf mewn gwerthiannau ffitrwydd (yn enwedig mewn lleoliadau gwledig), gwelliannau mewn sesiynau grŵp, a chasglu data i gyd wedi helpu i wella presenoldeb. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3f - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Gwastraff** | | | | | | | | | |
| 35 | **% y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (PAM/030)** | **70.49%** | 70.00% | **71.27%** | ☺ | ▲ | **66.59% (2023/24)** | **70.38% (2023/24)** | **** |
| | | Mae ein ffigur ailgylchu ar gyfer 2024/25 yn parhau i wella. Mae hyn er gwaethaf rhai problemau gydag ailgylchu pren yn ystod y flwyddyn a gafodd eu datrys cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rydym wedi rhagori ar y Targed Ailgylchu Cenedlaethol o 70% erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae'r ffigurau cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2023/24 yn dangos bod y gyfradd ailgylchu ledled Cymru yn 66.59%, a gynyddodd ychydig o 65.71% yn 2022/23. Ar y pwynt hwnnw, roedd Sir Gaerfyrddin yn uwch na hyn ar 70.49%, sef y $6^{ed}$ ffigur uchaf yng Nghymru. Ni fydd data cymharol ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyhoeddi tan Ionawr 2026. | | | | | | | |
| 36 | **Cilogramau'r gwastraff gweddilliol Awdurdod Lleol nad yw'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person (PAM/043)** | **121Kg fesul person** | 130Kg fesul person | **122Kg fesul person** | ☺ | ▼ | **168Kg (2023/24)** | **145Kg (2023/24)** | **** |
| | | Mae'r gwastraff trefol cyfartalog fesul person nad yw'n cael ei ailgylchu yn parhau i fod yn weddol sefydlog ar 122Kg ar ddiwedd 2024/25, o gymharu â 121Kg yn 2023/24. Mae'r ffigurau cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2023/24 yn dangos bod cyfradd Sir Gaerfyrddin yn well na chyfradd Cymru gyfan ac roedd gan y Sir y ffigurau $2^{il}$ gorau yn y wlad. Ni fydd data cymharol 2024/25 yn cael ei gyhoeddi tan fis Ionawr 2026. | | | | | | | |
| 37 | **% y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (WMT/004)** | **2.01%** | 6.00% | **1.31%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r canlyniad wedi cyrraedd ein targed lleol ond nid y targed cenedlaethol o ddim gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi erbyn 2025. Fodd bynnag, dim ond 1.31% a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. Nid oes unrhyw oblygiadau gan fod Llywodraeth Cymru yn mynnu y 'bydd tirlenwi yn cael ei ddileu cyn belled ag sy'n bosibl, gyda golwg ar fod yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu tuag at dargedau ailddefnyddio ac ailgylchu o +70%.' | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">38</td><td rowspan="2">% ein ffyrdd sy'n lân yn seiliedig ar y Sgôr Dangosydd Glendid (STS/005a)</td><td>71.6%</td><td>77.0%</td><td>70.8%</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae Arolygon y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) a gynhaliwyd yn ystod 2024/25 yn dangos mai sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu a sbwriel bwyd brys yw'r prif sbwriel a geir ar strydoedd Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, mae bagiau du a glas sy'n cael eu gollwng ar ein strydoedd hefyd wedi dylanwadu ar lefelau'r sbwriel a ddarganfuwyd, yn enwedig yn ardal Llanelli. Mae'r awdurdod wedi cychwyn ar y cynllun cyfathrebu gwrth-sbwriel i gefnogi strategaeth yr awdurdod i fynd i'r afael â'r problemau sbwriel sy'n anharddu'r awdurdod. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd cynllun gweithredu lleol yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â busnesau allweddol, yn cyfleu neges gwrth-sbwriel glir, ac yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'r gymuned leol a grwpiau gwirfoddol i leihau sbwriel. Bydd hefyd yn nodi'r camau gorfodi ar gyfer y rheiny sy'n parhau i ollwng sbwriel.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">39</td><td rowspan="2">Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerir i glirio achosion o dipio anghyfreithlon (PAM/035)</td><td>2.3 diwrnod</td><td>4 diwrnod</td><td>2.2 diwrnod</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi gwella i 2.2 diwrnod yn ystod 2024/25 gydag ychydig o dan 1,700 o achosion wedi'u clirio.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">40</td><td rowspan="2">Mae fy amgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da: Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>0.04 (Sgôr AIS)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>0.03 (Sgôr AIS)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Er bod y mwyafrif (46%) o'r ychydig dros 3,500 o ymatebwyr i'n harolwg preswylwyr yn cytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da, mae cyfran gymharol uchel yn anghytuno (37%). Mae'r sgôr gyffredinol wedi gwaethygu rhyw fymryn oddi ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol. Mae'n ddiddorol nodi bod y sgôr ar gyfer ardal gymunedol Llanelli gryn dipyn yn is na'r sgôr gyffredinol ar (-0.36). Mae hyn yn golygu bod dros 51.7% o'r ymatebwyr o ardal Llanelli yn mynegi anghytundeb. I'r gwrthwyneb, yr ardaloedd â'r sgoriau uchaf oedd Tywi (0.52) a Theifi (0.21).</td></tr>
</table>

**ATODIAD 5**

| Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Targed** | **Gwir Ganlyniad** | **Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹** | **A wnaethon ni wella ▲ neu ▼** | **Cyfradd Cymru Gyfan** | **Chwartel Gorau Cymru** | **Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****** |
| **Amcan Llesiant 3g - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | |
| **41** | **% ein Ffyrdd Dosbarth 'A' sydd mewn cyflwr gwael (PAM/020)** | **3.1% 2022/23** | 3.5% | **3.1% 2024/25** | ☺ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Ni chwblhawyd unrhyw arolygon yn ystod 2023/24 ond cawsant eu cwblhau'n gynnar yn 2024/25. Cafodd canlyniadau'r rhain eu cymharu â chanlyniadau 2022/23 ac roeddent yn dangos canlyniad o gyflwr sefydlog ar gyfer ein ffyrdd A. Mae'r canlyniadau yn dangos defnydd effeithiol o gyllid a buddsoddiad wedi'i dargedu gan ddefnyddio model blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth. Mae blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhannau prysuraf o'r rhwydwaith yn lleihau buddsoddiad yn ein ffyrdd diddosbarth sy'n parhau i ddirywio. | | | | | | | |
| **42** | **% ein Ffyrdd Dosbarth 'B' sydd mewn cyflwr gwael (PAM/021)** | **2.4% 2022/23** | 3.5% | **2.9% 2024/25** | ☺ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Ni chwblhawyd unrhyw arolygon yn ystod 2023/24 ond cawsant eu cwblhau'n gynnar yn 2024/25. O gymharu â chanlyniadau 2022/23, ceir ychydig o ddirywiad yn ein ffyrdd B. Fodd bynnag, mae hyn o fewn yr amrediad a ragwelir. Mae hyn yn dangos defnydd effeithiol o gyllid a buddsoddiad wedi'i dargedu gan ddefnyddio model blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth. Mae blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhannau prysuraf o'r rhwydwaith yn lleihau buddsoddiad yn ein ffyrdd diddosbarth sy'n parhau i ddirywio. | | | | | | | |
| **43** | **% ein Ffyrdd Dosbarth 'C' sydd mewn cyflwr gwael (PAM/022)** | **10.1% 2022/23** | 10.0% | **9.7% 2024/25** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Ni chwblhawyd unrhyw arolygon yn ystod 2023/24 ond cawsant eu cwblhau'n gynnar yn 2024/25. O gymharu â 2022/23, mae'r canlyniad ar gyfer ein ffyrdd C yn dangos gwelliant bach. Mae hyn yn dangos defnydd effeithiol o gyllid a buddsoddiad wedi'i dargedu gan ddefnyddio model blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth. Mae blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhannau prysuraf o'r rhwydwaith yn lleihau buddsoddiad yn ein ffyrdd diddosbarth sy'n parhau i ddirywio. Dylid bod yn ymwybodol nad yw'r arolygon hyn yn cwmpasu ein ffyrdd diddosbarth sy'n cyfateb i dros 45% o'n rhwydwaith ffyrdd, ac felly eu bod ond yn cyfleu rhan o'r stori. | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 44 | **Mae'n hawdd cael mynediad at y gwasanaethau sy'n berthnasol i mi**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **-0.05 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.11 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr ac er bod llawer wedi ateb 'nid y naill na'r llall' (29%), roedd ychydig yn fwy o ymatebwyr yn anghytuno (35%) nag a oedd yn cytuno (33%) eu bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'r sgôr wedi gwaethygu ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n dynodi nad yw'r teimladau wedi dychwelyd i'r hyn a oedd yn sgôr gadarnhaol yn 2022. Roedd tueddiadau yn seiliedig ar leoliad yn dynodi mai ardaloedd cymunedol Teifi a Gwendraeth oedd â'r sgoriau isaf. | | | | | | | |
| 45 | **Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da ar gael yn fy ardal i**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **-0.45 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.59 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 ychydig dros 3,500 o ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf (32%) neu'n anghytuno (24%) â'r gosodiad 'Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da ar gael yn fy ardal i'. Mae'r sgôr wedi gostwng o gymharu â'r llynedd. Mae dadansoddiad pellach yn dynodi bod y sgoriau isaf gan ymatebwyr a oedd yn byw yn ardaloedd cymunedol Tywi (-0.99) a Gwendraeth (-0.72). Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried bod yr ardaloedd hyn yn cynnwys rhai o wardiau mwyaf gwledig y Sir. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael yn niweidiol, nid yn unig i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn dysgu yn y Sir, ond hefyd i'r economi leol. Mae'n atal pobl rhag gweld eu teuluoedd a'u ffrindiau a chael mynediad at wasanaethau, gweithgareddau llesiant a gwaith; mae hefyd yn llesteirio twf economaidd trwy gyfyngu ar symudedd cymdeithasol a gall weithredu fel rhwystr i dwf busnesau. | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

<table>
<tr><th colspan="10">Amcan Llesiant 4 - Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)</th></tr>
<tr><th colspan="10">Ein Cyfres Data Corfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2024/25</th></tr>
<tr><th colspan="2" rowspan="2"></th><th rowspan="2">Pa mor dda rydym ni wedi</th><th colspan="7">Pa mor dda rydym ni yn ei wneud?</th></tr>
<tr><th colspan="4">Gweler yr esboniad o berfformiad</th><th colspan="3">Gwybodaeth Gymharol Cymru</th></tr>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad (PI)</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * ¡ ****</th></tr>
<tr><th colspan="10">Amcan Llesiant 4a - Cyffredinol</th></tr>
<tr><td rowspan="2">1</td><td rowspan="2">Gallaf gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy fy newis iaith<br>Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>1.37 (Sgôr AIS)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>1.37 (Sgôr AIS)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafodd ein harolwg preswylwyr ar gyfer 2024 dros 3,500 o ymatebwyr, gyda mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno y gallant gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy eu dewis iaith, a ddynodir gan sgôr AIS o 1.37. Dyma'r sgôr uchaf a welwyd o dan y thema hon, fel sydd wedi bod yn achos y ddwy flynedd flaenorol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">2</td><td rowspan="2">Pan rwyf yn defnyddio gwasanaethau’r Cyngor, mae’r staff yn ddymunol a chyfeillgar (Sgôr AIS)</td><td>0.77 (Sgôr AIS)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>0.77 (Sgôr AIS)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (68%) yn cytuno bod y staff yn agos-atoch ac yn gyfeillgar wrth gysylltu â Gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r sgôr wedi aros yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd yna rai enghreifftiau yn y sylwadau lle mae rhai pobl o'r farn nad yw'r Cyngor yn agos-atoch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">Gallaf gael mynediad hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor (Sgôr AIS)</td><td>0.46 (Sgôr AIS)</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>0.41 (Sgôr AIS)</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55%) yn teimlo y gallant gyrchu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau'r Cyngor yn rhwydd a dynodir hyn gan sgôr o 0.41. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</td></tr>
</table>

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad (PI) | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 4 | **Mae cysylltu â'r Cyngor yn syml a rhwydd** *(Sgôr AIS)* | **0.28 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.30 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (52%) yn cytuno eu bod yn ei chael hi'n syml ac yn rhwydd i gysylltu â'r Cyngor, a ddynodir gan sgôr o 0.30. Mae hyn yn gynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Un ffactor a allai fod wedi cyfrannu at y gwelliant hwn yw cyflwyno'r ddewislen opsiynau i alwadau a dderbynnir gan y Ganolfan Gyswllt. Er hynny, nodwyd ychydig o enghreifftiau mewn sylwadau lle mae ymatebwyr wedi profi anawsterau. | | | | | | | |
| 5 | **Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda** *(Sgôr AIS)* | **0.17 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **0.07 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r ymatebwyr at ei gilydd yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd da ar y cyfan. Fodd bynnag, mae hon yn sgôr gadarnhaol gymharol isel o 0.07, sy'n cyfateb i 43% yn cytuno a 31% yn anghytuno. Nododd 24% 'nid y naill na'r llall' a'r 2% sy'n weddill yn dewis 'Ddim yn gwybod'. Mae'r sgôr wedi gostwng 0.10 o gymharu â'r un canlyniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol.<br>Cafodd cwestiwn ychwanegol ei gynnwys eleni i ennill dealluswrydd meintiol ar foddhad preswylwyr ynghylch sawl maes gwasanaeth penodol. Rheoli Gwastraff a dderbyniodd y sgôr gadarnhaol uchaf gyda 0.38, ac yna Gwasanaethau Hamdden, Diwylliannol a Thwristiaeth gyda 0.07. Priffyrdd a Thrafnidiaeth oedd isaf gyda sgôr negyddol o -0.77 ac yna Gwasanaethau Tai a Digartrefedd gyda -0.33. | | | | | | | |
| 6 | **Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio** *(Sgôr AIS)* | **-0.12 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.02 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran y graddau y mae preswylwyr yn teimlo bod y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt sut mae'n perfformio. Dewisodd y gyfran fwyaf (29%) o'r ymatebwyr 'nid y naill na'r llall' sydd efallai yn arwydd o fater ehangach lle nad yw preswylwyr yn ymwybodol o sut i gael gafael ar y wybodaeth hon. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welwyd y llynedd. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad (PI) | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 7 | **Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau** ***(Sgôr AIS)*** | **-0.19 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.11 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Roedd y safbwyntiau hefyd yn gymysg ynglŷn â 'mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.' Mae awydd ymhlith ymatebwyr am wneud penderfyniadau mewn modd mwy ymatebol, tryloyw, ac wedi'i deilwra i anghenion amrywiol cymunedau unigol. Dywedodd llawer (31%) 'nid y naill na'r llall' sy'n cadarnhau pwysigrwydd ymgynghoriadau er mwyn rhoi cyfleoedd i breswylwyr rannu eu barn. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd y llynedd. | | | | | | | |
| 8 | **Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo** ***(Sgôr AIS)*** | **-0.46 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.54 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Roedd sgôr negyddol wedi'i dynodi ar gyfer 'mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo' lle roedd y sgôr wedi gostwng ymhellach o 0.08 o'r flwyddyn flaenorol - sef yr ail flwyddyn yn olynol i hyn ostwng. | | | | | | | |
| 9 | **Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd cywir** ***(Sgôr AIS)*** | **-0.57 (Sgôr AIS)** | Dim targed wedi'i bennu | **-0.64 (Sgôr AIS)** | Ddim yn berthnasol | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Ceir teimlad y gellid dyrannu adnoddau ariannol yn well, gydag awgrymiadau ar gyfer mwy o fuddsoddi mewn addysg, gofal cymdeithasol, a chefnogaeth i'r celfyddydau er mwyn hyrwyddo twristiaeth a thwf economaidd. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4b - Trawsnewid Sefydliadol - Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4c - Trawsnewid Sefydliadol - Incwm a Masnacheiddio** | | | | | | | | | |
| 10 | **Cymhorthdal fesul defnyddiwr yn ein Canolfannau Hamdden (Cyllideb wedi'i rhannu â phresenoldebau) (Leis/009)** | **£2.45** | £1.55 | **£1.13** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Trwy reoli'r gyllideb yn effeithiol a chynyddu presenoldeb mewn gweithgareddau yn sylweddol, mae'n dda gweld bod y cymhorthdal diwedd blwyddyn fesul defnyddiwr wedi gwella gryn dipyn oddi ar y llynedd ac o flaen y targed. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4d - Trawsnewid Sefydliadol - Gweithle** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad (PI) | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 4e - Trawsnewid Sefydliadol - Gweithlu** | | | | | | | | | |
| 11 | **Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol fesul 1,000 o weithwyr (PAM/044)** | **16.1** | 12.0 | **18.4** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Roedd 124 o weithwyr y cyngor ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol yn ystod 2024/25. Mae hyn yn uwch na'r disgwyl ac yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. | | | | | | | |
| 12 | **% y gweithwyr o gymunedau lleiafrifol ethnig 1.3.4.4** | **0.94%** | Dim targed wedi'i bennu | **1.08%** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Roedd 91 o weithwyr y Cyngor o gymunedau lleiafrifol ethnig ar ddiwedd mis Mawrth 2025. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4f - Trawsnewid Sefydliadol - Dylunio a Gwella Gwasanaethau** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4g - Trawsnewid Sefydliadol - Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol** | | | | | | | | | |
| 13 | **Nifer y galwadau a dderbyniwyd yn y Ganolfan Gyswllt (M&M/005)** | **175,859** | 175,000 | **179,191** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer y galwadau yn ein Canolfan Gyswllt nawr wedi sefydlogi ers cyflwyno'r ddewislen 'Opsiynau' yn gynnar yn 2023. | | | | | | | |
| 14 | **Cyflymder cyfartalog i ateb galwadau i'r Ganolfan Gyswllt. (munudau ac eiliadau) (M&M/006)** | **1.05 munud** | 5.00 munud | **2.04 munud** | ☺ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r cyflymder cyfartalog i ateb galwadau yn ein Canolfan Gyswllt nawr wedi sefydlogi ers cyflwyno'r ddewislen 'Opsiynau' yn gynnar yn 2023. | | | | | | | |
| 15 | **Nifer y sesiynau defnyddwyr ar wefan y Cyngor Sir (M&M/001)** | **4,564,455** | 5,064,455 | **4,654,783** | ☹ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Bu cynnydd o 2% yn nifer y sesiynau defnyddwyr ar wefan y Cyngor yn ystod 2024/25 i ychydig dros 4.65 miliwn. Mae hwn yn welliant bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond ni wnaeth gyrraedd ein targed o ychydig dros 5 miliwn. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4h - Trawsnewid Sefydliadol - Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ond gweler hefyd Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur** | | | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4i - Trawsnewid Sefydliadol - Ysgolion** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ond gweler hefyd Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 1: Addysg** | | | | | | | | | |

## 5 - Galluogwyr Busnes Craidd

### Ein Cyfres Data Corfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2024/25

| | | Pa mor dda rydym ni wedi | Pa mor dda rydym ni yn ei wneud? | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler yr esboniad o berfformiad | | | | Gwybodaeth Gymharol Cymru | | |
| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **5aTechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | | | | | | | | | |
| 1 | **% y ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith (2.1.1.17)** | **94.37%** | 90.00% | **93.28%** | ☺ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Ymatebwyd i ychydig dros 93% o geisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth erbyn yr amser gofynnol o 20 diwrnod gwaith yn ystod 2024/25. Cafwyd gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau a gafwyd - 789, o gymharu ag 870 yn 2023/24. | | | | | | | |
| **5b - Marchnata a'r Cyfryngau (gan gynnwys Gwasanaethau Cwsmeriaid)** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, gweler Amcan Llesiant 4g - Trawsnewid Sefydliadol - Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol** | | | | | | | | | |
| **5c - Cyfreithiol** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **5d - Cynllunio** | | | | | | | | | |
| 2 | **Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt mewn pryd. (PLA/018)** | **87.5%** | 85.0% | **91.6%** | ☺ | ▲ | **90.5% (2024/25)** | **97.5% (2024/25)** | ** |
| | | Penderfynwyd ar 1,336 o geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, gyda 1,224 wedi'u penderfynu ar amser (91.6%). Mae hyn wedi rhagori ar y targed o 85% ac yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfradd Cymru gyfan sef 90.5%. | | | | | | | |
| 3 | **Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd. (PLA/019)** | **70.4%** | 75.0% | **78.1%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | O'r 32 o apeliadau cynllunio a gafwyd yn ystod 2024/25, cafodd 25 eu diystyru (78.1%). Felly, mae hyn yn unol â'r targed ac yn welliant o gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol o 70.4%. Mae hefyd yn rhagori ar Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Da' o 66%. | | | | | | | |

| Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| 4 | **Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cynllunio cadarnhaol (PLA/022)** | **306 diwrnod** | 180 diwrnod | **360 diwrnod** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cynllunio cadarnhaol yn ystod 2024/25 wedi cynyddu eto. Bu nifer sylweddol o achosion yn destun erlyniad. Mae'r ffigurau'n cynrychioli hyd yr amser i erlyn achos sydd ag oedi sylweddol nad oes gennym unrhyw reolaeth drosto. | | | | | | | |
| **5e - Cyllid** | | | | | | | | | |
| 5 | **Canran y dreth gyngor sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod. (CFH/007)** | **97.01%** | 97.50% | **96.41%** | ☹ | ▼ | **95.60%** | **96.19%** | **** |
| | | Mae'r casgliadau yn ystod y flwyddyn i lawr yn erbyn y targed o 97.5% ond mae'r casgliadau parhaus ar ffurf cynlluniau talu a chamau gorfodi yn parhau. Er gwaethaf gostyngiad yn y gyfradd gasglu, rydym yn parhau i fod â'r 5ed gyfradd gasglu uchaf yng Nghymru ac yn uwch na ffigurau Cymru gyfan. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad</th><th>2023/24 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2024/25 neu'r diweddaraf</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Gwir Ganlyniad</th><th>Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹</th><th>A wnaethon ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfradd Cymru Gyfan</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">6</td><td rowspan="2">Gwariant Alldro Refeniw<br>Gwariant refeniw yw cyfanswm gwariant awdurdod lleol ar bob gwasanaeth, ynghyd â chyllid dyled, ond heb unrhyw incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau a ffynonellau eraill nad ydynt yn grantiau.</td><td>£512,250,428<br>2022/23</td><td>Dim targed wedi'i bennu</td><td>£567,083,437<br>2023/24</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>▲</td><td colspan="3">Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae'r Gwariant Alldro Refeniw ar gyfer 2023/24 wedi'i rannu rhwng y gwasanaethau canlynol:-<br>• Addysg £210,790,737 (gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig: cyflogau staff, atgyweiriadau a chynnal a chadw, arlwyo ysgolion, ac addysg oedolion.)<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol £166,690,366 (gan gynnwys gwasanaethau plant a theuluoedd: cartrefi plant, gwasanaethau maethu a mabwysiadu. Gofal cartref a chartrefi nyrsio; gofalu am yr henoed; gofalu am bobl ag anableddau corfforol, meddyliol neu ddysgu; ceiswyr lloches, a chamddefnyddio sylweddau.)<br>• Tai Cronfa'r Cyngor a Budd-dal Tai £47,584,998 (gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cyngor am dai, blaendaliadau a'r digartref, taliadau budd-dal tai, a gweinyddu.) • Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol £33,267,199 (gan gynnwys gwasanaethau mynwentydd, amlosgi, a chorffdy; iechyd yr amgylchedd; glanhau strydoedd; casglu a gwaredu gwastraff; a gwariant y Parc Cenedlaethol.)<br>• Ffyrdd a Thrafnidiaeth £15,042,191 (gan gynnwys adeiladu a gwaith cynnal a chadw strwythurol ar ffyrdd cyhoeddus, troedffyrdd, llwybrau beicio a hawliau tramwy cyhoeddus eraill; goleuadau stryd a diogelwch ar y ffyrdd)<br>• Llyfrgelloedd, Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a Hamdden £16,027,537 (gan gynnwys amgueddfeydd, orielau a datblygu'r celfyddydau; theatrau ac adloniant cyhoeddus; atgyweirio adeiladau hanesyddol; datblygu chwaraeon a chyfleusterau, gan gynnwys canolfannau hamdden a phyllau nofio; twristiaeth; a hyrwyddo mannau agored.)<br>• Cynllunio a Datblygu Economaidd £17,204,379 (gan gynnwys rheoli adeiladu a datblygu; datblygu cymunedol ac economaidd; polisi cynllunio; a materion amgylcheddol.)<br>• Budd-daliadau a Gweinyddu'r Dreth Gyngor £5,522,486 (gan gynnwys budd-daliadau'r dreth gyngor a gweinyddu budd-daliadau'r dreth gyngor (heb grant budd-daliadau'r dreth gyngor); a chasglu'r dreth yn lleol.)<br>• Gwariant Refeniw Arall £54,953,545 (gan gynnwys amddiffyn yr arfordir ac amddiffynfeydd rhag llifogydd; cynlluniau argyfwng, gweinyddiaeth ganolog a chyllid dyled.)</td></tr>
<tr><td colspan="10">5f - Caffael</td></tr>
<tr><td colspan="10">Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **5g - Archwilio Mewnol** | | | | | | | | | |
| 7 | **Gwir gyflawniad yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol. (6.4.1.3)** | **89%** | 90% | **85%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Er bod hyn ychydig yn is na'r targed ar 85%, mae'r cynllun archwilio wedi gwneud cynnydd da trwy gydol y flwyddyn, er bod y tîm wedi gweithredu gyda swydd wag am tua chwe mis. Mae'n galonogol adrodd bod yr holl aseiniadau archwilio wedi'u cychwyn a'u bod ar y gweill. Felly, rydym yn hyderus y bydd y cynllun archwilio yn cael ei gwblhau'n llawn cyn hir yn gynnar yn 2025/26. | | | | | | | |
| 8 | **% yr ymatebion gan reolwyr a dderbyniwyd o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol drafft. (IA/002)** | **68%** | 80% | **61%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae derbyn ymatebion amserol i adroddiadau archwilio yn parhau i fod yn her, gyda dim ond 61% o'r ymatebion wedi'u derbyn o fewn yr amserlen darged o 15 diwrnod gwaith. Mae'r oedi hyn yn cael effaith o ganlyniad ar gyflawni'r cynllun archwilio yn gyffredinol.<br>Rhoddwyd gwybodaeth bellach i Benaethiaid Gwasanaeth i fynegi pwysigrwydd ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol mewn modd amserol. | | | | | | | |
| **5h - Rheoli Pobl** | | | | | | | | | |
| 9 | **Nifer y bobl sy'n ymfalchïo mewn gweithio i'r Cyngor (Arolwg Blynyddol Ymgysylltu â Gweithwyr) (1.3.4.7)** *Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **1.06 (Sgôr AIS)** | 1.10 (Sgôr AIS) | **1.15 (Sgôr AIS)** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cawsom dros 1,600 o ymatebion i'n harolwg staff yn ystod 2024/25, eto gyda chytundeb cryf cyffredinol bod ein staff yn teimlo'n falch o weithio i'r Cyngor. Gyda sgôr AIS o 1.15, mae hyn yn welliant pellach ar gyfer 2024/25. Dadansoddwyd y canlyniadau a'r sylwadau a bu'r canfyddiadau yn destun trafodaethau ar lefel gorfforaethol ac adrannol. Cytunwyd ar gamau lleol i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella. | | | | | | | |
| 10 | **Nifer y bobl fyddai'n argymell y Cyngor fel cyflogwr (Arolwg Blynyddol Ymgysylltu â Gweithwyr) (1.3.4.8)**<br><br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dynodi anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dynodi cytundeb cryf cyffredinol.* | **1.10 (Sgôr AIS)** | 1.20 (Sgôr AIS) | **1.17 (Sgôr AIS)** | ☹ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Cawsom dros 1,600 o ymatebion i'n harolwg staff yn ystod 2024/25, gyda nifer y staff a fyddai'n argymell y Cyngor fel cyflogwr yn parhau i gynyddu gyda sgôr AIS o 1.17 yn dynodi cytundeb cryf yn gyffredinol. Dadansoddwyd y canlyniadau a'r sylwadau a bu'r canfyddiadau yn destun trafodaethau ar lefel gorfforaethol ac adrannol. Cytunwyd ar gamau lleol i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **11** | **% y swyddi uwch-reolwyr wedi'u llenwi gan fenywod. 1.3.2.4** | **29.5%** | Dim targed wedi'i bennu | **31.0%** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Fel ym mis Mawrth 2025, roedd 6 o'r 20 swydd Rheolwr wedi'u llenwi gan fenywod, o gymharu â 7 allan o 22 ar ddiwedd Mawrth 2024. | | | | | | | |
| **12** | **Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd i absenoldeb salwch fesul gweithiwr. (PAM/001)** | **11.1 diwrnod** | 10.8 diwrnod | **11.5 diwrnod** | ☹ | ▼ | **11.7 diwrnod (2023/24)** | **10.3 diwrnod (2023/24)** | *** |
| | | Bu cynnydd bach yn absenoldeb salwch cyfartalog gweithwyr y cyngor yn ystod 2024/25, gan gynyddu o 11.1 diwrnod i 11.5 diwrnod. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r lefelau cyn covid o tua 10 diwrnod. Mae'r is-adran Rheoli Pobl yn darparu cyngor a chefnogaeth i reolwyr, sy'n gyfrifol am reoli presenoldeb. Mae'r Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn cefnogi adrannau ac is-adrannau drwy ddarparu'r data salwch a'r dadansoddiad i reolwyr. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio camau priodol i sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli a bod gweithwyr yn cael eu cefnogi, yn unol â'n polisïau a'n canllawiau salwch. Caiff tueddiadau eu monitro'n agos. Mae'r tîm Iechyd a Llesiant yn cefnogi drwy fentrau rhagweithiol ac ymyriadau pwrpasol. Mae'r tîm hefyd yn codi ymwybyddiaeth o bynciau iechyd allweddol. Mae gweithwyr proffesiynol Iechyd Galwedigaethol yn darparu barn feddygol i weithwyr sy'n cael eu hatgyfeirio ac yn darparu argymhellion i reolwyr ar addasiadau rhesymol, prognosis a ffitrwydd i weithio. Mae angen i reolwyr ganolbwyntio ar reoli presenoldeb, i sicrhau parhad y gwasanaeth ac i ddarparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer dychwelyd i'r gwaith neu i barhau yn y gwaith. | | | | | | | |
| **13** | **% y gweithwyr awdurdod lleol sy'n datgan eu bod yn anabl o dan delerau Deddf Cydraddoldeb 2010. 1.3.4.5** | **12.36%** | Dim targed wedi'i bennu | **13.17%** | Ddim yn berthnasol | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Dywedodd 1,108 o weithwyr y Cyngor eu bod yn anabl ddiwedd mis Mawrth 2025 o gymharu â 1,027 ar ddiwedd mis Mawrth 2024. | | | | | | | |
| **5i - Gwasanaethau Democrataidd** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

| | Diffiniad / Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad | 2023/24 neu ganlyniad blaenorol | 2024/25 neu'r diweddaraf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Gwir Ganlyniad | Targed wedi'i Gyrraedd ☺ neu ☹ | A wnaethon ni wella ▲ neu ▼ | Cyfradd Cymru Gyfan | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym ni'n cymharu yng Nghymru * i **** |
| **5j - Polisi a Pherfformiad** | | | | | | | | | |
| 14 | **% y cwynion a gwblhawyd o fewn y dyddiad cau statudol (Comp/001)** | **61.4%** | 100.0% | **61.2%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r canlyniad diwedd blwyddyn o 61.2% yn dangos gostyngiad bach oddi ar ganlyniad 2023/24 o 61.4. Gan fod natur y cwynion yn mynd yn fwy cymhleth a'r cyfathrebu gan achwynwyr yn mynd yn fwy manwl, mae bodloni'r amserlenni ymateb statudol yn fwyfwy heriol. | | | | | | | |
| **5k- Y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil** | | | | | | | | | |
| **Dulliau mesur yn cael eu datblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **5l - Ystadau a ac Rheoli Asedau** | | | | | | | | | |
| 15 | **% y perfformiad yn erbyn y targed i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf i gefnogi'r rhaglen gyfalaf (2.1.2.12)** | **142.20%** | 100% (o £1.275 miliwn) | **72.84%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Yn anffodus, ni chafodd derbyniad mawr a oedd yn ddisgwyliedig o waredu yn 2024/25 ei wireddu mewn pryd, a oedd yn golygu bod y derbyniad cyfalaf wedi'i ohirio ac felly ni chafodd y targed ei gyrraedd. Bydd y derbyniad cyfalaf sylweddol o £550,000 yn awr yn cael ei gynnwys yn rhaglen gyfalaf 2025/26. | | | | | | | |
| **5m - Rheoli Risg** | | | | | | | | | |
| 16 | **% yr ymateb i lythyrau hawliad - cyhoeddi llythyr o gydnabyddiaeth i'r hawlydd / cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd, ac atgyfeirio'r hawliad at Yswiriwr priodol o fewn 6 diwrnod gwaith i'w dderbyn gan yr Adain Rheoli Risg. (6.4.2.3.)** | **94%** | 95% | **94%** | ☹ | ▼ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Mae'r canlyniad ychydig oddi ar y targed ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ganlyniad cyson o gymharu â'r llynedd. | | | | | | | |
| 17 | **% y digwyddiadau cerbydau modur y rhoddir gwybod amdanynt i Rheoli Risg o fewn 5 diwrnod gwaith (RM/001)** | **53%** | 48% | **75%** | ☺ | ▲ | Ddim yn berthnasol | | |
| | | Rhoddwyd gwybod am 75% o ddigwyddiadau cerbydau fflyd i Rheoli Risg o fewn 5 diwrnod gwaith yn ystod 2024/25. Mae hyn yn welliant da o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. | | | | | | | |
| **5n- Cefnogi Busnesau** | | | | | | | | | |
| **Nid oes unrhyw fesurau o fewn y thema hon ar hyn o bryd.** | | | | | | | | | |